

Helpwch ni

Rydyn ni eisiau eich barn chi ar y ffordd rydyn ni'n sôn am gynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni, sydd heb alluedd meddyliol

Ymgynghoriad Pobl Ifanc ar Bennod 31 y Cod ADY drafft

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.



Cyflwyniad **3**


**Rydym ni'n ymgynghori ar
Bennod 31 y Cod ADY drafft** **4**

Pennod 31 y Cod ADY drafft **5**

Ein syniadau ni ar gyfer Pennod 31 **7**

Beth sy'n digwydd nesaf **8**

Cwestiynau **9**



Cyflwyniad

Y llynedd (2019) gofynnwyd ni i chi beth oedd eich barn am ein syniadau ar gyfer **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol**. Nawr mae gennym ni fwy o gwestiynau. Ond yn gyntaf gadewch i ni weld beth mae'n ei olygu.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol yn aml yn cael ei dalfyrru i ADY.

Mae angen cymorth ychwanegol ar blant a phobl ifanc ag ADY i ddysgu. Mae pawb yn wahanol, ond dyma rai rhesymau pam fod angen help ychwanegol ar bobl:

- Er eu bod nhw'n gallu mynd i'w hysgol leol, mae ganddyn nhw anabledd neu anhawster arall sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol arny'n nhw

- Maen nhw'n ei chael hi'n anoddach dysgu na phlant a phobl ifanc eraill yr un oedran
- Dydyn nhw ddim yn gallu mynd i'r coleg neu'r ysgol leol gan nad oes yno'r cyfleusterau sydd eu hangen arny'n nhw ar gyfer eu hanabledd



Beth yw'r Cod ADY?

Rydym ni bron â gorffen ysgrifennu'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd yn ddogfen sy'n cynnwys rheolau a chynghor i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY. Bydd yn helpu sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.

Rydym ni'n ymgynghori ar Bennod 31 y Cod ADY drafft

Beth yw ymgynghoriad?

Ymgynghoriad yw pan rydym ni'n gofyn i bobl beth yw eu barn nhw am ein syniadau ni. Rydym ni'n nodi'r wybodaeth, yna'n gofyn cwestiynau. Mae'r atebion mae pawb yn eu rhoi yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau. Mae ymateb i ymgynghoriadau yn ffordd o fod yn ddinesydd da.

Beth yw drafft?

Rydym ni'n holi am y Cod ADY **drafft**. Mae drafft yn golygu nad yw wedi ei orffen ac y gallai newid unwaith y byddwn ni wedi edrych ar atebion pawb i'n cwestiynau ni.

Mae'r Cod ADY drafft yn ddogfen fawr gyda llawer o benodau. Pan ofynnem ni am y Cod ADY drafft y tro diwethaf, doeddem ni ddim yn gallu holi am Bennod 31, gan nad oedd hi'n barod. Mae'n barod nawr, a dyna pam rydym ni'n gofyn am un rhan o'r cod yn unig.

Rydym ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi am ein syniadau ni. Rydym ni hefyd yn gofyn i oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, rhieni a sefydliadau sy'n cefnogi eu teuluoedd.

Edrychwch ar yr wybodaeth am Bennod 31 a'n syniadau ni ar ei chyfer, yna atebwch y cwestiynau ar y diwedd. Dydyn nhw ddim yn anodd, ac mae lle i chi ychwanegu unrhyw syniadau eraill sydd gennych chi hefyd.

Os ydych chi eisiau gweld yr ymgynghoriad llawn, mae ar gael fan hyn:

<https://llyw.cymru/cynrychiolwyr-pobl-ifanc-rhieni-plant-nad-oes-ganddynt-alluedd-meddyliol?>



Pennod 31 y Cod ADY drafft


Am beth mae Pennod 31 yn sôn?

Mae llawer o resymau pam fod gan blant a phobl ifanc anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'r rhain yn cael eu trafod mewn penodau eraill o'r Cod ADY drafft.

Mae Pennod 31 yn trafod pobl sydd **heb alluedd meddyliol**.

Mae **galluedd meddyliol** yn golygu gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun ar yr adeg iawn.

Dydy pobl sydd heb alluedd meddyliol ddim yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ar yr adeg iawn. Gallai hyn fod oherwydd nad ydyn nhw'n gallu deall yr wybodaeth sydd ei hangen arny'n nhw i wneud y penderfyniad hwnnw, neu nad ydyn nhw'n gallu ei chofio am ddigon o amser. Efallai na fyddan nhw'n gallu meddwl amdani, neu efallai nad ydyn nhw gallu rhoi gwybod i bobl am eu penderfyniad.



Mae Pennod 31 yn ymwneud â'r **bobl hyn** sydd heb alluedd meddyliol:

rhieni sydd heb alluedd meddyliol sydd â phlentyn rhwng 0 ac 15 oed
neu
bobl ifanc sydd rhwng 16 a 25 oed

Pwy all wneud penderfyniadau ar eu rhan nhw?

Efallai eich bod yn gwybod am hawliau plant, a'i bod yn bwysig i'ch dymuniadau a'ch teimladau chi gael eu hystyried pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n effeithio arnoch chi. Mae hyn yr un fath ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai ag ADY.

Dylai plant a phobl ifanc sydd heb alluedd meddyliol gael **cynrychiolydd** sy'n gallu sicrhau eu bod nhw'n cael eu hawliau. Os nad oes gan riant plentyn alluedd meddyliol, dylai fod ganddo ef/ganddi hi gynrychiolydd hefyd.

Cynrychiolydd

Cynrychiolydd yw person fydd yn helpu gwneud penderfyniadau dros riant plentyn neu dros berson ifanc.

Bydd ganddo/ganddi yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno/arni i wneud y penderfyniad a dylai bob amser ystyried hawliau, meddyliau a theimladau'r person ifanc neu riant plentyn.

Pwy all fod yn gynrychiolydd?

Gallai cynrychiolydd fod yn rhywun sydd wedi ei ddewis gan y Llys i wneud penderfyniadau dros riant plentyn neu dros berson ifanc.

Os nad oes gan berson ifanc rywun sydd wedi cael ei ddewis gan y Llys, yna gall ei riant/rhiant fod yn gynrychiolydd iddo/iddi. Fel arfer, bydd rhiant yn deall ei anghenion/hanghenion ac eisiau'r gorau iddo/iddi.

Os nad oes gan berson heb alluedd meddyliol gynrychiolydd, dylai pobl sy'n gweithio i'w gefnogi/chefnogi ei helpu i gael cynrychiolydd os oes angen un arno/arni.

Beth all y cynrychiolydd ei wneud?

Gall:

- Wneud penderfyniadau dros riant plentyn neu dros berson ifanc
- Delio â gwaith papur am ADY
- Mynd i gyfarfodydd i drafod cynlluniau ar gyfer y person ifanc neu'r plentyn
- Rhoi gwybod i bobl os ydyn nhw'n yn anghytuno â rhywbeth. Gallan nhw ofyn i banel arbennig o'r enw y Tribiwnlys Addysg edrych ar benderfyniad eto os nad yw'n cytuno ag ef.



Ein Syniadau ni ar gyfer Pennod 31



Rydym ni eisiau eich holi chi am sut rydym ni'n defnyddio geiriau ym Mhennod 31 wrth sôn am **riant plentyn** neu **berson ifanc**.

Cofiwch, ym Mhennod 31 y Cod ADY drafft, nad oes gan **riant plentyn** alluedd meddyliol ac mae ganddo/ganddi blentyn sy'n 0 – 15 oed. Mae **person ifanc** rhwng 16 a 25 oed heb alluedd meddyliol.

Pan fyddwn ni'n dweud **rhiant plentyn** rydym ni eisiau iddo olygu naill ai:

- ei gynrychiolydd **neu**
- rhiant y plentyn **a'i** gynrychiolydd.

Y rheswm am hyn yw, gan nad yw'r rhiant yn gallu gwneud penderfyniadau, byddai ganddo/ganddi gynrychiolydd i'w helpu.

Pan fyddwn ni'n dweud **person ifanc** rydym ni eisiau iddo olygu naill ai:

- ei gynrychiolydd **neu**
- y person ifanc **a'i** gynrychiolydd.

Y rheswm am hyn yw, gan nad yw'r person ifanc yn gallu gwneud penderfyniadau, byddai ganddo/ganddi gynrychiolydd i'w helpu.



Rydym ni eisiau i hyn fod yr un fath ag mewn dwy ddogfen bwysig:

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysg (Cymru) 2018 a

Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n sôn am bethau sy'n ymwneud â'r Cod ADY drafft.



Beth sy'n digwydd nesaf?

Rydym ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi am ddefnyddio'r geiriau **rhiant plentyn**, **person ifanc** a **chynrychiolydd** fel hyn ac a ydych chi'n meddwl ei fod yn syniad da.

Yn yr adran nesaf mae pedwar cwestiwn byr. Byddem ni'n falch iawn pe baech yn eu hateb nhw a hefyd yn rhoi gwybod i ni am unrhyw syniadau eich hun.

Anfonwch eich atebion atom ni erbyn
29 Hydref 2020, os gwelwch yn dda.

Drwy'r post:

Y Gangen Trawsnewid Anghenion Dysgu
Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Drwy e-bost: SENreforms@gov.wales

Unwaith y bydd atebion pawb gennym ni, byddwn ni'n penderfynu sut rydym ni'n defnyddio geiriau ym Mhennod 31, ac yn gorffen ysgrifennu'r ddogfen. Bydd pobl yn gallu dechrau defnyddio'r Cod ADY yn 2021.

Mwy o Wybodaeth

Os hoffech chi weld fersiwn oedolion yr ymgynghoriad ar Bennod 31 o'r Cod ADY drafft, gallwch chi ddod o hyd iddo yma:

<https://llyw.cymru/cynrychiolwyr-pobl-ifanc-rhieni-plant-nad-oes-ganddynt-alluedd-meddyliol>

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am yr ymgynghoriad ar weddill y Cod ADY drafft, gallwch ddod o hyd iddo yma:

<https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft>



**Cymerwch ran,
os gwelwch
yn dda**



Cwestiwn 1

Ym Mhennod 31 y Cod ADY byddwn ni'n ysgrifennu am riant plentyn.

Rydym ni eisiau i hyn olygu naill ai ei gynrychiolydd neu'r riant a'i gynrychiolydd. Mae hynny oherwydd weithiau mae angen i riant plentyn a'i gynrychiolydd fod ynghlwm ag un rhan o'r broses ADY, ond ar adegau eraill dim ond y cynrychiolydd sydd angen bod yn rhan o'r broses.

Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

Cwestiwn 2

Ym Mhennod 31 y Cod ADY byddwn ni'n ysgrifennu am berson ifanc.

Mae pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed.

Rydym ni eisiau i hyn olygu naill ai ei gynrychiolydd neu'r person ifanc a'i gynrychiolydd. Mae hynny oherwydd weithiau mae angen i'r person ifanc a'i gynrychiolydd fod ynghlwm ag un rhan o'r broses ADY, ond ar adegau eraill dim ond y cynrychiolydd sydd angen bod yn rhan o'r broses.

Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?



Cwestiwn 3

Os nad oes gan berson ifanc ag ADY gynrychiolydd, ydych chi'n credu ei fod yn syniad da i'w riant/rhiant fod yn gynrychiolydd iddo/iddi?

Cwestiwn 4

Os oes unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud wrthym ni am y Cod ADY drafft a Phennod 31, mae croeso i chi ddweud wrthym ni yn y blwch isod.

Diolch

Diogelu Data – beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'ch atebion chi?

Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar atebion pawb i wneud penderfyniadau am **Bennod 31 y Cod ADY**. Weithiau mae sefydliadau eraill yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau ac efallai y byddan nhw hefyd yn gweld yr atebion mae pobl yn eu rhoi. Ond, byddwn ni'n dilyn y gyfraith pan fyddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth.

Pan fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am yr hyn y mae pobl wedi ei ddweud, rydym ni weithiau'n ysgrifennu atebion pobl gyda eu henwau a'u cyfeiriadau yn yr adroddiad neu ar y rhyngwyd. Pan fyddwch chi'n anfon eich atebion atom ni, dywedwch wrthym ni os **nad** ydych chi eisiau i ni ysgrifennu eich enw a'ch cyfeiriad yn yr adroddiad neu ar y rhyngwyd.

Yn ôl **cyfreithiau diogelu data**, dylech chi allu:

- cael gwybod pa wybodaeth bersonol sydd gennym ni amdanoch chi a sut y gallwch ei gweld
- gwneud i ni newid unrhyw gamgymeriadau sy'n yr wybodaeth amdanoch chi
- gofyn i ni beidio â defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion
- gofyn i ni ddileu'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi mewn rhai achosion

- symud yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi i rywle arall mewn rhai achosion
- cwyno wrth **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** os oes angen.

Os hoffech chi wybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio, mae croeso i chi gysylltu â ni:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Gallwch chi hefyd gysylltu â
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif Ffôn: 01625 545 745
neu 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk>

OGL

© Hawlfraint y Goron Medi 2020
WG41273